

CPLLL

Sut mae'ch pensiwn yn gweithio

00:00

Pensiynau yn Syml: Sut mae'ch pensiwn yn gweithio

00:05

Mae pensiwn gyda Llywodraeth Leol yn ffordd hawdd o gynilo am fywyd ar ôl gwaith.

00:11

Mae'n bensiwn Budd Diffiniedig

00:13

sy'n golygu ei fod wedi'i adeiladu trwy ddefnyddio fformiwla benodol.

00:18

Mae hyn yn rhoi incwm diogel a gwarantedig i chi bob blwyddyn

00:23

pan fyddwch chi'n rhoi'r gorau i weithio.

00:25

Mae'n gweithio fel hyn.

00:27

Bob blwyddyn rydych chi'n cronni pensiwn yn seiliedig ar ffracsiwn o'ch cyflog.

Ar y sgrin: Un 49fed o'ch cyflog

00:32

Telir hwn i'ch cyfrif pensiwn.

00:35

Ar ddiwedd y flwyddyn, ychwanegir hyn at eich cyfanswm o flynyddoedd blaenorol

00:41

a'i ailbrisio i sicrhau ei fod yn cadw i fyny â chostau byw.

00:45

Pan gymerwch eich pensiwn yn ddiweddarach mewn bywyd,

00:49

telir y cyfanswm yn eich cyfrif i chi fel eich pensiwn blynyddol.

00:53

A gallwch ddewis cyfnewid rhan ohono am lwmp swm di-dreth.

00:58

Os byddwch chi'n gadael eich swydd, mae gennych ddau ddewis.

01:04

Gallwch gadw'ch cyfrif pensiwn,

01:06

er na fyddwch yn gallu talu i mewn iddo ddim mwy.

01:09

Gelwir hyn yn bensiwn gohiriedig.

01:13

Neu gallwch ei drosglwyddo i bensiwn arall.

01:17

Fodd bynnag, os byddwch yn gadael o fewn 2 flynedd,

01:21

fel rheol byddwch yn gallu hawlio ad-daliad o'ch cyfraniadau.

01:26

Ewch i wefan CPLLL i gael mwy o wybodaeth am fuddion y Cynllun

Ar y sgrin: [lgpsmember.org](http://lgpsmember.org), wasg Talu i men ac yna Sut mae'ch pensiwn yn cael ei gyfrifo

01:30

a sut mae unrhyw bensiwn a adeiladwyd gennych cyn 1 Ebrill 2014 yn cael ei gyfrifo.

01:38

Gallwch hefyd wyllo mwy o'n fideos 'Pensiynau yn Syml'.

01:44

CPLLL. I chi. Am nawr. I'r dyfodol.

01:47

Mae'r fideo hwn ar gyfer gweithwyr yng Nghymru a Lloegr sy'n gymwys i ymuno â'r CPLLL. Mae'n darparu gwybodaeth gyffredinol yn unig ac nid yw'n cynrychioli cyngor ariannol. Nid yw'n darparu unrhyw hawliau cytundebol na statudol ac os bydd unrhyw anghydfod bydd y ddeddfwriaeth briodol yn drech.